Electricity Distribution

nationalgrid

Croeso

Croeso i'n digwyddiad ymgynghori cyhoeddus! Rydym yn edrych ymlaen at rannu gwybodaeth am ein cynigion ar gyfer cysylltu Fferm Wynt Ogwr Uchaf. Mae hefyd yn gyfle i chi sgwrsio â'n tîm a gofyn unrhyw gwestiynau sydd gennych.

Cymerwch ychydig o amser i fyfyrio ar y cynigion a chwblhau ffurflen adborth - naill ai ar-lein ar wefan y prosiect neu drwy ofyn i un o'n tîm am gopi papur o'r ffurflen ac amlen bost am ddim.

Y cynnig yw cysylltu Fferm Wynt Ogwr Uchaf â rhwydwaith y Grid Cenedlaethol, gan ddefnyddio 9km o geblau trydan. O'r rhain, bydd 4.8km yn linellau uwchben tra bydd y gweddill yn geblau tanddaearol. Bydd y llinell 66kV yn rhedeg ar draws pen uchaf Ddyffrynnoedd Ogwr Uchaf, Garw a Llynfi ym Mhen-y-bont ar Ogwr a Chastell-nedd Port Talbot.

Drwy ymestyn ein rhwydwaith i ddatgloi hyd at 25MW o ynni gwyrdd o'r fferm wynt, gallwn helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a chefnogi nod Llywodraeth Cymru i gynhyrchu 100% o ddefnydd trydan blynyddol Cymru o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2035.

Welcome

Welcome to our public consultation event! We're looking forward to sharing information about our proposals for the connection of the Upper Ogmore Wind Farm. This is also an opportunity for you to chat with our team, ask any questions you may have.

Please take some time to reflect on the proposals and complete a feedback form - either online on the project webpage or by asking one of our team for a paper copy of the form and a freepost envelope.

The proposal is to connect the Upper Ogmore Wind Farm to the National Grid network, using 9km of electricity cables. Of these, 4.8km will be overhead lines while the remainder will be underground cables. The 66kV line will run across the top of the Upper Ogmore, Garw and Llynfi Valleys of Bridgend and Neath Port Talbot.

By extending our network to unlock up to 25MW of green energy from the wind farm, we can help to address the climate emergency and support the Welsh Government's goal to generate 100% of Wales' annual electricity consumption from renewable sources by 2035.

Electricity Distribution

nationalgrid

Dosbarthu Trydan y Grid Cenedlaethol

Dosbarthu Trydan y Grid Cenedlaethol yw gweithredwr dosbarthu mwyaf y DU gyda dros 25 miliwn o gwsmeriaid ledled De Cymru, Canolbarth Lloegr a De-orllewin Lloegr.

Yn Ne Cymru, rydym yn gofalu am tua 36,000km o rwydwaith trydan, gan wasanaethu dwy filiwn o gwsmeriaid a chyflogi mwy na 1,000 o bobl.

Rydym yn buddsoddi £1.2 biliwn yn Ne Cymru rhwng 2023 a 2028 ac yn edrych i gysylltu 1.8 Gigawat (GW) o gapasiti gwynt ar draws y rhanbarth.

Bydd ein buddsoddiad cynyddol yn Ne Cymru hefyd yn ein galluogi i gysylltu mwy o dechnolegau carbon isel, cynnal ac atgyfnerthu'r rhwydwaith presennol a chefnogi'r newid i ddyfodol ynni sero net.

Rydym eisoes yn ymateb i'r galw cynyddol am drydan sydd wedi gweld:

Dwywaith cymaint o gysylltiadau cerbydau trydan yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf nag ym mhob blwyddyn flaenorol gyda'i gilydd

Cynnydd o 900% mewn ceisiadau cysylltu dros bum mlynedd

10GW o gapasiti wedi'i dynnu o'r ciw cysylltiadau i flaenoriaethu 200 o brosiectau sy'n barod i'w datblygu

National Grid Electricity Distribution

National Grid Electricity Distribution is the UK's largest distribution operator with over 25 million customers across South Wales, the Midlands and the South West.

In South Wales, we look after about 36,000km of electricity network, serving two million customers and employing more than 1,000 people.

We're investing £1.2 billion in South Wales between 2023 and 2028 and looking to connect 1.8 Gigawatts (GW) of wind capacity across the region.

Our increased investment in South Wales will also enable us to connect more low carbon technologies, maintain and reinforce the existing network and support the transition to a net zero energy future.

We're already responding to growing demands for electricity which have seen:

Twice as many electric vehicle connections in the past 2 years than in all previous years combined

A 900% increase in connection requests over five years

10GW of capacity removed from the connections queue to prioritise 200 shovel-ready projects

Electricity Distribution

nationalgrid

Fferm Wynt Ogwr Uchaf

Cymeradwywyd Fferm Wynt Ogwr Uchaf fel Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS) ym mis Medi 2022 a bydd yn cynnwys saith tyrbin ar uchder o 150m.

Bydd y fferm wynt yn cael ei hadeiladu ar draws pen uchaf Dyffrynnoedd Garw ac Ogwr o fewn ffiniau Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Unwaith y bydd y fferm wynt wedi'i hadeiladu, gallai gynhyrchu hyd at 25MW. Bydd wedi'i lleoli'n union wrth ymyl Parc Ynni Adnewyddadwy Llynfi Afan.

Am ragor o wybodaeth ynghylch y fferm wynt, ewch i wefan y prosiect:
upperogmore-windfarm.co.uk

Upper Ogmore Wind Farm

Upper Ogmore Wind Farm was approved as a Development of National Significance (DNS) in September 2022 and will include seven turbines at a height tip of 150m.

The wind farm will be constructed across the top of the Garw and Ogmore valleys within the boundaries of Bridgend County Borough Council. Once constructed, the wind farm could generate up to 25MW. It will be located directly next to the Llynfi Afan Renewable Energy Park.

For further information on the wind farm, please go to the project website:
upperogmore-windfarm.co.uk



Electricity Distribution

nationalgrid

Cynigion cysylltu

Bydd y cysylltiad newydd wedi'i leoli'n bennaf mewn ardal a gwmpesir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (CBC), gyda rhai rhannau o fewn ffiniau CBC Castell-nedd Port Talbot.

O dan y cynlluniau presennol, bydd 4.2km o hyn yn gebl tanddaearol, tra bydd y 4.8km sy'n weddill yn linellau uwchben.

Bydd y llinellau uwchben yn cael eu cynnal gan bolion pren siâp H (gweler y ddelwedd ar y bwrdd tirlunio) ar uchder o hyd at 15 metr. Mae'r polion hyn yn cynnwys dau bolyn pren sengl, wedi'u cysylltu gan groesfraich â chyplysau.

Bydd y llinell mor syth â phosibl oni bai bod angen osgoi rhai nodweddion, fel coed.

Byddai'r llwybr arfaethedig yn cychwyn o'r cysylltiad grid arfaethedig â Foel Trawsnant i'r gogledd-orllewin o Nantyffyllon ac yn mynd ymlaen i Fferm Wynt Ogwr Uchaf, fel a ganlyn:

Connection proposals

The new connection will be situated primarily in an area covered by Bridgend County Borough Council (CBC), with some sections within the boundaries of Neath Port Talbot CBC.

Under current plans, 4.2km of this will be underground cable, while the remaining 4.8km will be made up of overhead lines.

The overhead lines will be supported by wooden H poles (see image on landscape board) at a height of up to 15 metres. These poles consist of two single wooden poles, joined by a crossarm with bracing.

The line will be as straight as possible unless certain features, such as trees, need to be avoided.

The proposed route would start from the proposed Foel Trawsnant grid connection to the northwest of Nantyffyllon and would proceed to the Upper Ogmore Wind Farm, as follows:

1. Mae'r llwybr yn dechrau i'r gorllewin o'r A4063 ger Caerau fel Llinell Uwchben (OHL) am oddeutu 1.1km gyda chysylltiad 'T' Oddi ar Gysylltiad Grid arfaethedig Foel Trawsnant.
2. Wrth i'r llwybr gyrraedd Caerau, mae'n trawsnewid yn Geblau Tanddaearol (UGC) gan ddilyn y rhwydwaith priffyrdd presennol am tua 1.7km tuag at Groeserw.
3. Yn union cyn cyrraedd Heol Brynheulog, mae'r llwybr yn mynd yn ôl i OHL am tua 3.7km i'r dwyrain.
4. I'r gogledd-orllewin o Flaengarw, ger Mynydd Caerau, mae'r llwybr yn trawsnewid yn ôl i UGC ac yn parhau tua'r dwyrain am tua 2.5km i Fferm Wynt Ogwr Uchaf.

1. The route begins to the west of the A4063 near Caerau as an Overhead Line (OHL) for approximately 1.1km with a 'T' Off connection from the proposed Foel Trawsnant Grid Connection.
2. As the route reaches Caerau, it then transitions into Under Ground Cables (UGC) following the existing highway network for approximately 1.7km towards Croeserw.
3. Immediately before reaching Brynheulog Road, the route goes back to OHL for approximately 3.7km to the east.
4. To the northwest of Blaengarw, close to Mynydd Caerau, the route transitions back into UGC and continues east for approximately 2.5km to the Upper Ogmore Wind Farm

Dyluniad

Mae angen y cysylltiad newydd hwn i gysylltu'r fferm wynt â'r rhwydwaith trydan. Ers i'r cynllun fferm wynt gael caniatâd yn 2022, rydym wedi bod yn gweithio ar y ffordd orau a mwyaf hyfyw o gyflawni'r cysylltiad.

Cafodd cysylltu'r cynllun â'r grid yn Is-orsaf Caerau ei ddiystyru fel posibilrwydd yn gynnar. Mae hyn oherwydd nad oes gan y rhwydwaith rhwng Is-orsaf Caerau a gweddill y rhwydwaith gapasiti sbâr ar gyfer y cysylltiad o gysylltiadau grid Ogwr Uchaf a Foel Trawsnant sy'n gyfagos.

Byddai uwchraddio'r rhwydwaith o Is-orsaf Caerau yn gofyn am uwchraddio gan arwain at aflonyddwch ychwanegol i gymunedau lleol.

Design

This new connection is needed to connect the wind farm to the electricity network. Since the wind farm scheme was granted consent in 2022, we've been working on the best and most viable way to deliver the connection.

Connecting the scheme to the grid at the Caerau Substation was discounted as a possibility early on. This is because the network between the Caerau Substation and the remainder of the network does not have spare capacity for both the connection from the Upper Ogmore and nearby Foel Trawsnant grid connections.

To upgrade the network out of the Caerau Substation would require upgrades resulting in additional disruption for local communities.

Electricity Distribution

nationalgrid

Amgylchedd

Yn ystod cyfnod paratoi'r cynllun hwn, rydym yn cynnal cyfres o astudiaethau ecolegol i lywio ein cynlluniau yn y meysydd canlynol:

- **Mawn**
- **Traffig a chludiant**
- **Effeithiau ar y dirwedd ac effeithiau gweledol**
- **Ecoleg**
- **Adareg**
- **Yr amgylchedd hanesyddol**
- **Hydroleg, daeareg a hydroddaeareg**
- **Cloddio glo**

Environment

During the preparation phase of this scheme, we are carrying out a series of studies to inform our plans in the following areas:

- **Peat**
- **Traffic and transport**
- **Landscape and visual impacts**
- **Ecology**
- **Ornithology**
- **Historic environment**
- **Hydrology, geology and hydrogeology**
- **Coal mining**

Rheoli effeithiau lleol

Ar gyfer y prosiect hwn, nid oes angen llwythi annormal i gael offer i'r safle. Bydd ceblau tanddaearol yn cael eu gosod ar hyd ymyl y ffordd ar gyfer rhan Caerau ac ar y darn o Fynydd Caerau, tua'r dwyrain tuag at yr is-orsaf yn fferm wynt Ogwr Uchaf.

Ni fydd angen cau ffyrdd. Rydym yn cynnig defnyddio goleuadau dros dro i reoli traffig, rhag ofn bod lonydd yn cael eu cau. Bydd yr effaith bosibl ar ddefnyddwyr ffyrdd yn cael ei hasesu pan fydd y llwybr ar gyfer cerbydau adeiladu wedi'i gadarnhau.

Byddwn yn gweithio gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gydlynu mesurau priodol ar gyfer rheoli traffig.

Managing local impacts

For this project, no abnormal loads are needed to get equipment to the site. Underground cables will be laid along the edge of the road for the Caerau section and on the stretch from Mynydd Caerau, eastwards towards the substation at the Upper Ogmore wind farm.

There should be no need for road closures. We are proposing the use of temporary lights to manage traffic, in the case of lane closures. The potential impact for road users will be assessed when the route for construction vehicles is confirmed.

We will work with Bridgend CBC to coordinate appropriate traffic management measures.

Electricity Distribution

nationalgrid

Effaith ar y dirwedd ac effaith weledol

Byddwn yn cynnal asesiad effaith ar y dirwedd ac effaith weledol (LIVA) i nodi pa effeithiau ffisegol a gweledol a allai fod o'r cynllun.

Mae'r prosiect yn defnyddio polion pren siâp H sy'n gymharol syml i'w codi, sydd angen ychydig iawn o gymorth ychwanegol, ac sy'n creu llai o effaith weledol na pheilonau dur mwy.

Landscape and visual impact

We will be conducting a landscape and visual impact assessment (LIVA) to identify what physical and visual impacts there may be from the scheme.

The project makes use of wooden H poles which are fairly simple to erect, require little in the way of additional support, and create less visual impact than larger, steel pylons.



Electricity Distribution

nationalgrid

Y broses gynllunio

Mae'r datblygiad hwn yn cael ei ddosbarthu fel datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS), ac fel y cyfryw, bydd y cais yn cael ei gyflwyno i Benderfyniadau Cynllunio Amgylchedd Cymru (PEDW), fydd yn penderfynu a ddylid rhoi caniatâd.

The planning process

This development is classed as a Development of National Significance (DNS), and therefore, the application will be submitted to Planning Environment Decisions Wales (PEDW), which will decide whether to grant permission.

Y camau nesaf

Ar hyn o bryd rydym yn ymgynghori ar y cynigion sy'n dod i'r amlwg ar gyfer Cysylltiad Grid Ogwr Uchaf. Cynhelir ymgynghoriad statudol pellach ar y cais cynllunio drafft yn hydref 2025.

Next steps

We are currently consulting on the emerging proposals for the Upper Ogmore Grid Connection. Further statutory consultation will take place on the draft planning application in the autumn of 2025.

Mehefin a Gorffennaf 2025
Ymgynghoriad anffurfiol

June & July 2025
Informal consultation

Haf 2025
Cwblhau cais cynllunio drafft

Summer 2025
Finalisation of draft planning application

Hydref 2025
Ymgynghoriad Statudol ar y Cais Cynllunio drafft

Autumn 2025
Statutory consultation on the draft planning application

Gaeaf 2025
Cyflwyno cais gan gynnwys adroddiad Ymgynghoriad Cyn-ymgeisio a Datganiad Amgylcheddol

Winter 2025
Application submission including pre-application consultation report and environmental statement

Gaeaf 2026
Archwiliad cais gan PEDW

Winter 2026
Application examination by PEDW

Gwanwyn 2026
Penderfyniad ar y cais

Spring 2026
Application determination

Electricity Distribution

nationalgrid

Dweud eich dweud a chysylltwch â ni

Diolch i chi am fynychu ein digwyddiad heddiw.

Dweud eich dweud

Wrth i ni symud ymlaen tuag at ein hymgynghoriad statudol, hoffem glywed eich barn a'ch sylwadau ar y cynigion hyn sy'n dod i'r amlwg.

Bydd eich barn yn cael ei bwydo i'r broses ddylunio a bydd yn helpu i lunio'r cais cynllunio drafft. Pan fydd yn barod, byddwn yn cynnal ymgynghoriad statudol yn ddiweddarach yn y flwyddyn cyn cwblhau'r cyflwyniad cais.

Gallwch roi eich barn drwy lenwi ein ffurflen adborth sydd ar gael:

Ar ein gwefan:
nationalgrid.co.uk/upper-ogmore

Ar bapur yn y digwyddiad heddiw, ynghyd ag amlen rhadbost.

Dychwelwch y ffurflen erbyn 16 Gorffennaf 2025 i Freepost GRASSHOPPER CONSULT (dim angen stamp).

Gallwch hefyd gysylltu â ni drwy unrhyw un o'r canlynol:

Drwy e-bost:
nged.upperogmore@nationalgrid.co.uk

Dros y ffôn:
01656 334319

Trwy'r post:
Freepost GRASSHOPPER CONSULT (no stamp needed)

Have your say & contact us

Thank you for attending our event today.

Have your say

As we progress towards our statutory consultation, we'd like to hear your thoughts and opinions on these emerging proposals.

Your views will be fed into the design process and will help shape the draft planning application. When it's ready later in the year we'll hold a statutory consultation before finalising the application submission.

You can give your views by completing our feedback form which is available:

On our website:
nationalgrid.co.uk/upper-ogmore

On paper at today's event, along with a freepost envelope.

Please return the form by 16 July 2025 to Freepost GRASSHOPPER CONSULT (no stamp needed).

You can also contact us through any of the following:

By email:
nged.upperogmore@nationalgrid.co.uk

By phone:
01656 334319

By post:
Freepost GRASSHOPPER CONSULT (no stamp needed)